Busnes@
gwynedd.llyw.cymru

# Canllawiau Cyhoeddusrwydd Grant Gwella Eiddo Canol Trefi Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD

Rydych wedi derbyn grant o Grant Gwella Eiddo Canol Trefi Gwynedd. Mae rhai o'r grantiau yma yn cael eu cyllido yn rhannol gan Cyngor Gwynedd, yn rhannol gan Cronfa Ffyniant Cyffredin: Gwynedd, a rhai o'r grantiau yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru trwy raglen Trawsnewid Trefi

Wrth dderbyn y grant, rydych wedi ymrwymo i gydnabod y gyllideb yma wrth weithredu'ch Prosiect. Mae'r ddogfen hon yn gosod allan sydd y bydd disgwyl i chi wneud hynny.

Mae'r tabl isod yn egluro sut I gydymffurfio a'r canllawiau yn dibynol ar pa cyrff sydd wedi ariannu'ch grant.

**Os ydi'ch grant wedi'i ariannu gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, mi fydd hynny wedi'i ddatgan yn glir ar eich cynnig swyddogol**

| **Grantiau Sydd wedi'u hariannu o raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru** | **Grantiau Sydd wedi'u hariannu gan Cyngor Gwynedd a Cronfa Ffyniant Cyffredin: Gwynedd** |
|---|---|
| **Logo**<br>Rhaid i chi ddefnyddio'r stribed logos canlynol mewn pob deunydd cyfathrebu a dogfennau cyhoeddus sy'n ymwneud a'ch Prosiect:<br><br>STRIBED LOGOS 1 - Gwaelod yr dogfen<br><br>Mae hyn yn cynnwys, ond nid ydi'n gyfyngedig i:<br>• Hysbysebion, hysbysebion swydd a datganiadau i'r wasg<br>• Arwyddion a phlaciau<br>• Deunyddiau caffael, astudiaethau achos ac eitemau hyrwyddo<br>• Deunyddiau electronig e.e. troedyn e-bost, sleidiau cyflwyniad<br><br>Gallwch ychwanegu logo eich hun, cyn belled â'ch bod yn sicrhau bod pob logo o faint cyfartal, a bod yna bwlch cyfartal rhwng pob un. | **Logo**<br>Rhaid i chi ddefnyddio'r stribed logos canlynol mewn pob deunydd cyfathrebu a dogfennau cyhoeddus sy'n ymwneud a'ch Prosiect:<br><br>STRIBED LOGOS 2 - Gwaelod yr dogfen<br><br>Mae hyn yn cynnwys, ond nid ydi'n gyfyngedig i:<br>• Hysbysebion, hysbysebion swydd a datganiadau i'r wasg<br>• Arwyddion a phlaciau<br>• Deunyddiau caffael, astudiaethau achos ac eitemau hyrwyddo<br>• Deunyddiau electronig e.e. troedyn e-bost, sleidiau cyflwyniad<br><br>Gallwch ychwanegu logo eich hun, cyn belled â'ch bod yn sicrhau bod pob logo o faint cyfartal, a bod yna bwlch cyfartal rhwng pob un. |

| | |
|---|---|
| **Deunyddiau digidol, gan gynnwys gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol**<br><br>Mi all sianeli digidol roi ffordd gyflym i ymgysylltu hefo cynulleidfaoedd a hyrwyddo'ch Prosiect. Lle rydych wedi cyhoeddi manylion eich Prosiect ar wefan, rhaid cynnwys cyfeiriad clir ac amlwg i'r cyllid gan rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru<br><br>**Ariennir y Prosiect hwn yn rhannol gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru**<br><br>Lle mae gwefan wedi'i chreu yn uniongyrchol gennych chi ar gyfer eich Prosiect, rhaid arddangos y stribed logos ar y tudalen blaen/cartref.<br><br>Os ydych yn rhoi manylion y Prosiect ar wefan sydd heb ei chreu yn uniongyrchol ar gyfer y Prosiect (e.e. eich gwefan arferol sydd yn cynnwys gweithgareddau ehangach), rhaid arddangos y stribed logos ar y tudalen sy'n cyfeirio at y Prosiect<br><br>Lle'n ymarferol, dylech hefyd cynnwys dolen i dudalen we Trawsnewid Trefi a Busnes@Gwynedd<br><br>Wrth ddisgrifio neu hyrwyddo eich Prosiect ar y cyfryngau cymdeithasol megis Twitter, rhaid defnyddio'r hashnodau canlynol:<br><br>#Llywodraeth Cymru<br>#Trawsnewid Trefi<br>#Busnes@Gwynedd | **Deunyddiau digidol, gan gynnwys gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol**<br><br>Mi all sianeli digidol roi ffordd gyflym i ymgysylltu hefo cynulleidfaoedd a hyrwyddo'ch Prosiect. Lle rydych wedi cyhoeddi manylion eich Prosiect ar wefan, rhaid cynnwys cyfeiriad clir ac amlwg i'r cyllid gan Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru a Cronfa Ffyniant Cyffredin:Gwynedd, fel a ganlyn:<br><br>**Ariennir y Prosiect hwn yn rhannol gan Lywodraeth y DU trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn rhannol gan Cyngor Gwynedd, ac yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**<br><br>Lle mae gwefan wedi'i chreu yn uniongyrchol gennych chi ar gyfer eich Prosiect, rhaid arddangos y stribed logos ar y tudalen blaen/cartref.<br><br>Os ydych yn rhoi manylion y Prosiect ar wefan sydd heb ei chreu yn uniongyrchol ar gyfer y Prosiect (e.e. eich gwefan arferol sydd yn cynnwys gweithgareddau ehangach), rhaid arddangos y stribed logos ar y tudalen sy'n cyfeirio at y Prosiect<br><br>Lle'n ymarferol, dylech hefyd cynnwys dolen i dudalen we Cronfa Ffyniant Cyffredin y DU, a Gwefan Busnes@ a'r testun canlynol (dylid hefyd cael ei ddefnyddio ar gyfer nodiadau i'r golygydd): |

| | |
|---|---|
| Mi all eich postiadau cael eu rhannu gan Lywodraeth Cymru, a Cyngor Gwynedd i alluogi i eraill dilyn cynnydd eich Prosiect | Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn biler canolog agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, ac yn darparu £2.6 biliwn o nawdd i fuddsoddiadau lleol erbyn Mawrth 2025. Mae'r gronfa yn anelu i gynyddu balchder fro, a chyfleoedd bywyd ar draws y DU, trwy fuddsoddi mewn cymunedau a lleoedd, cefnogi busnesau lleol a phobl a sgiliau. A wybodaeth pellach, ewch i https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus<br><br>Wrth ddisgrifio neu hyrwyddo eich Prosiect ar y cyfryngau cymdeithasol megis Twitter, rhaid defnyddio'r hashnodau canlynol:<br><br>#UKSPF<br>#CyngorGwynedd<br>#Busnes@Gwynedd<br><br>Mi all eich postiadau cael eu rhannu gan Llywodraeth y DU a Cyngor Gwynedd i alluogi i eraill dilyn cynnydd eich Prosiect |

| | |
|---|---|
| Ar gyfer Prosiectau Isadeiledd, wrth gwblhau Prosiect (dim mwy na tri mis wedi'i gwblhau) rhaid i chi osod plac neu hysbysfwrdd (billboard) parhaol o faint sylweddol mewn lleoliad hawdd i'r cyhoedd ei weld ar gyfer pob Prosiect. Raid i bob plac cael ei gynhyrchu a'i gyllido gan Dderbynnydd y Grant (chi), a mesur lleiafswm o 250x200mm.<br><br>Rhaid I'r plac neu hysbysfwrdd cynnwys y stribed logo uchod i faint priodol (fel arfer holl led y plac/hysbysfwrdd) | Ar gyfer Prosiectau Isadeiledd, wrth gwblhau Prosiect (dim mwy na tri mis wedi'i gwblhau) rhaid i chi osod plac neu hysbysfwrdd (billboard) parhaol o faint sylweddol mewn lleoliad hawdd i'r cyhoedd ei weld ar gyfer pob Prosiect. Raid i bob plac cael ei gynhyrchu a'i gyllido gan Dderbynnydd y Grant (chi), a mesur lleiafswm o 250x200mm.<br><br>Rhaid I'r plac neu hysbysfwrdd cynnwys y stribed logo uchod i faint priodol (fel arfer holl led y plac/hysbysfwrdd) |

| **Y Wasg a'r Cyfryngau, yn cynnwys datganiadau i'r wasg a nodiadau i'r golygydd** | **Y Wasg a'r Cyfryngau, yn cynnwys datganiadau i'r wasg a nodiadau i'r golygydd** |
| --- | --- |
| Gall defnydd o'r cyfryngau fod yn ffordd gost-effeithiol o hyrwyddo'ch Prosiect. Mae'r ymarfer da i ddatblygu datganiadau i'r wasg wrth lansio'ch Prosiect, ac wedyn i gyhoeddi cerrig milltir a chyflawniadau allweddol<br><br>Rhaid i ddatganiadau i'r wasg cynnwys cyfeiriad clir ac amlwg i raglen Trawsnewid Trefi o fewn corff y datganiad fel a ganlyn:<br><br>**'(Mae'r prosiect hwn/enw'r prosiect) wedi derbyn £(YCHWANEGWCH Y SWM) o raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru'**<br><br>Mae'n ofyniad hefyd i ddefnyddio'r geiriad sydd wedi'i osod allan yn adran Deunyddiau Digidol fel nodiadau i'r golygydd mewn pob gweithgaredd y cyfryngau | Gall defnydd o'r cyfryngau fod yn ffordd gost-effeithiol o hyrwyddo'ch Prosiect. Mae'r ymarfer da i ddatblygu datganiadau i'r wasg wrth lansio'ch Prosiect, ac wedyn i gyhoeddi cerrig milltir a chyflawniadau allweddol<br><br>Rhaid i ddatganiadau i'r wasg cynnwys cyfeiriad clir ac amlwg i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a Cyngor Gwynedd o fewn corff y datganiad fel a ganlyn:<br><br>**'(Mae'r prosiect hwn/enw'r prosiect) wedi derbyn £(YCHWANEGWCH Y SWM) o Lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a gan Cyngor Gwynedd'**<br><br>Mae'n ofyniad hefyd i ddefnyddio'r geiriad sydd wedi'i osod allan yn adran Deunyddiau Digidol fel nodiadau i'r golygydd mewn pob gweithgaredd y cyfryngau |

Mi fydd disgwyl i chi ddarparu copïau o unrhyw ddeunyddiau marchnata a hyrwyddo gyda'ch hawliad, ynghŷd â llun o'r plac. Dylech hefyd cadw copïau o'r rhain at bwrpas monitro ac awdit. Gofynnir i chi ddiweddaru Tîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd o ran unrhyw gyfleoedd cyhoeddusrwydd i'r dyfodol

Stribed Logos 1

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Busnes@
gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR
GWYNEDD

Stribed Logos 2

Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

WEDI'I YRRU GAN
FFYNIANT BRO

POWERED BY
LEVELLING UP

Busnes@
gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR
GWYNEDD

Busnes@
gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR
GWYNEDD